Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Beth all un person ei wneud?

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a Gwaith Ieuenctid Canllaw Byr ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid

"Mae gennych ddigon o broblemau'ch hun i ymdopi â nhw heb orfod poeni hefyd am bethau sy' ddim yn effeithio arnoch chi ar hyn o bryd ..."

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.esdgc-wales.org.uk** neu cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at **ESDGC@wales.gsi.gov.uk**

Mae ADCDF yn ymwneud â'r materion a ganlyn:

- Y cysylltiadau rhwng y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, a rhwng ein bywydau ni ein hunain a bywydau pobl ledled y byd.
- Anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- Y berthynas rhwng pŵer, adnoddau a hawliau dynol.
- Galluogi pobl ifanc i ddeall y grymoedd byd-eang sy'n llywio'u bywydau.
- Rhoi'r sgiliau i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Galluogi pobl ifanc i gwestiynu, i feddwl mewn ffordd feirniadol, ac i fod yn empathig.

"Dw i ddim yn bwriadu mynd o gwmpas yn cofleidio coed!"

Mae'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru (2007) yn cefnogi dull ADCDF o weithredu ac yn datgan y dylem, wrth fynd ati i weithio yn y maes hwn, gydnabod bod Cymru'n genedl ac iddi amryfal ieithoedd a diwylliannau a bod dinasyddiaeth yn cynnwys cyfrifoldebau a hawliau fel dinasyddion byd-eang.

Bydd mabwysiadu'r dull ADCDF o weithredu yn fodd i ennyn gwell dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc ac yn fodd i roi gwell profiadau iddynt. Gall hyn amrywio o edrych ar agweddau, cymryd camau ymarferol a bod yn rhan o'r gwaith datblygu polisi.

"Dw i'n gwneud y gwaith yn barod, ond sut galla i ei wneud yn well?"

Mae sawl ffordd ymarferol o weithredu yn hyn o beth. Dyma rai ohonynt:

Profiadau Rhyngwladol

"Ar ôl cael cyfle i siarad â phobl ifanc eraill, dw i'n edrych ar y byd mewn ffordd wahanol"

Yr Amgylchedd

"Am nad y'n ni'n meddwl am genedlaethau'r dyfodol, fyddan nhw byth yn ein hanghofio ni"

Dinasyddiaeth Fyd-eang

"Ddylai bywydau pobl ifanc eraill yn y wlad hon neu mewn gwledydd eraill ddim fod yn waeth er mwyn i fi gael bywyd gwell!"

Gallwch chi wneud gwahaniaeth yn y ffyrdd a ganlyn:

- Sicrhau eich bod yn gwybod beth mae ADCDF yn ei olygu yn y Sector Ieuenctid.
- Ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd ym maes datblygiad proffesiynol.
- Sicrhau eich bod yn gwybod am yr adnoddau diweddaraf sydd ar gael, megis Pecynnau Cymorth.
- Mabwysiadu'r dull hwn o weithio a mynd ati i weithredu.

75% wedi'i ailgylchu recycled

© Hawfraint y Goron Mawrth 2008
CMK-22-04-046 (038)
D6980809